Pennaeth Mewn Gofal
Mrs Sara Morris
✉SaraMorris@gwynedd..llyw.cymru
☎ **01678 520278**

Ysgol Bro Tegid
Heol Tegid
Y BALA
Gwynedd
LL23 7BN

Annwyl rieni,

Mae'n anodd credu ei bod bron yn wyliau Pasg yn barod!

Trefniadau nôl plant o'r ysgol - Diolch yn fawr i chi fel rhieni am gydweithio â ni fel ysgol i sicrhau fod eich plant yn croesi'n ddiogel o'r ysgol ar ddiwedd y prynhawn. Rydym wedi cael gwybod y bydd Mrs Carol Reed yn parhau i ffwrdd o'i gwaith am gyfnod eto felly byddwn yn parhau a'r drefn yma y tymor nesaf.

Cystadleuaeth 'CogUrdd' - Nos Fercher, y 21ain o Chwefror daeth Mrs Ann Roberts i'r ysgol i feirniadu cystadleuaeth coginio'r Urdd. Roedd y disgyblion yn gorfod paratoi salad Asiaidd. Da iawn i'r holl ymgeiswyr sef Anya, Cadi Fflur, Rachel, Llion, Wil, Alys, Mared, Olivia, Lewys a Hana. Roedd gan y beirniad ganmoliaeth uchel i bob un ohonynt. Llongyfarchiadau mawr iawn i Wil Pritchard (Bl.5) ar ddod yn gyntaf ac Olivia Freeman (Bl.4) a Hana Williams (Bl.4) ar ddod yn gydradd ail.

Cystadleuaeth athletau 'Sportshall' - Aeth tim o 9 disgybl i gynrychioli'r ysgol drwy Wynedd ar yr 22ain o Chwefror gan ddod yn gyntaf unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt.

Celf yr Urdd - Ar yr 28ain o Chwefror cafodd gwaith celf a chrefft yr Urdd (Penllyn) eu beirniadu. Cafwyd 28 o wobrau i gyd sydd yn ardderchog.

1af -Alys, Aron, Becca, Cadi Llywela, Cara, Jac Dafydd, Mared, Megan Roberts a Rachel.
2il - Steffan Owen, Sophia, Jac Owen, Elysa, Cian ac Aron.
3ydd - Robert, Steffan Barlow, Owen, Olivia, Lilley, Lia, Jac Watkins, Efa, Anni Vaughan, Cari ac Aron.

Celf yr Urdd (Rhanbarth) - Ar y 13eg o Fawrth cafodd gwaith celf a chrefft eu beirniadu ar lefel rhanbarth. Cafwyd 6 gwobr gyntaf a fydd yn mynd ymlaen i gael eu beirniadu ar lefel Cenedlaethol a 3 trydydd gwobr.

1af - Rachel Edwards, Cadi Llywela, Megan Roberts-Edwards, Aron Rhys, Jac Dafydd a Becca Mai Roberts.

3ydd - Jac Owen, Sophia Mrowiec, Aron Rhys Jones.

CADWCH Y DYDDIAD - Bydd noson i wobrwyo y disgyblion a gafodd wobrau ar lefel rhanbarth yn Ysgol Bro Idris,Dolgellau ar 17/4/'18 rhwng 6 ac 8 o'r gloch.

Diolch yn fawr unwaith eto i bawb a fu'n eu cynorthwyo.

Canlyniadau Eisteddfod Cylch yr Urdd :
1af - Côr
1af - Cadi Llywela : Unawd blwyddyn 3 a 4
1af - Madi Edwards : Dawns hip-hop
2il - Anya Roberts : Dawns hip-hop
2il - Parti cerdd dant
3ydd - Lia Rowlands : Unawd cerdd dant blwyddyn 3 a 4
3ydd - Alaw Roberts : Dawns hip-hop

[Nifer o eitemau wedi mynd syth ymlaen i'r Sir oherwydd sefyllfa'r tywydd eleni]

Canlyniadau Eisteddfod Dawns y Sir
1af - grŵp dawnsio gwerin Bl. 3 a 4
1af - Madi Edwards : Dawnsio hip-hop
3ydd - grŵp dawnsio gwerin Bl.5 a 6

Canlyniadau Eisteddfod Sir Yr Urdd
1af - Kaytlin Jones (llefaru i ddysgwyr blwyddyn 3 a 4)
2il - Cadi Llywela (unawd blwyddyn 3 a 4)
2il - Parti unsain
3ydd - Côr
3ydd - Parti cerdd dant.

Diolch arbennig i Mrs Gemma Evans, Mrs Nia Roberts, Andrea Parry ac Anti Gwyneth am hyfforddi'r disgyblion ar gyfer yr eisteddfodau. Rydym yn gwerthfawrogi eich ymroddiad yn fawr iawn.

Cystadleuaeth Diwrnod Y Llyfr 'Awen Meirion' - Diolch i bawb a gefnogodd y gystadleuaeth yma eleni. Llongyfarchiadau mawr i Jac Dafydd Jones (blwyddyn 5) am ennill un o'r gwobrau a chael tocyn llyfr i wario yn siop 'Awen Meirion'.

Croeso nôl - Yr wythnos yma rydym yn croesawu Miss Sioned Alaw Roberts (athrawes dosbarth derbyn) yn ôl atom yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr i Mrs Gemma Evans am ei gwaith arbennig gyda'r dosbarth derbyn yn ystod y cyfnod yma.

Digwyddiadau ar ôl Pasg :-

9/4/'18	Disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cychwyn yn Y Ganolfan Hamdden am 6 wythnos.
10/4/'18 - 11/4/'18	Blwyddyn 5 a 6 yn mynd i Ganolfan Awyr Agored Rhosygwaliau ar gwrs preswyl.
2-9 o Fai '18	Gweinyddir y profion Cenedlaethol Bl. 2-6
7/5/'18	Gŵyl Y Banc - dim ysgol
13/5/'18	Cystadleuaeth Pelrwyd Cenedlaethol Yr Urdd - Aberystwyth
28/5- 1/6	Wythnos hanner tymor - Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd (Bydd grŵp dawnsio gwerin blwyddyn 3 a 4 a Kaytlin (llefaru) yn cystadlu ar y Dydd Llun)

Bydd yr ysgol yn ail-agor i'r disgyblion Dydd Llun, y 9fed o Ebrill.

Mwynhewch y gwyliau a diolch am eich cefnogaeth unwaith eto y tymor yma.
Mrs Sara Morris (Pennaeth mewn Gofal)